| **GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG** | |
|---|---|
| **145 - Rheoliadau Anifeiliaid (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 21 Ionawr 2019* | |
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na fydd |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 44 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Amherthnasol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol | 13 Chwefror 2019 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 5 Chwefror 2019 |

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Mae'r offeryn hwn yn darparu ar gyfer cyfres o swyddogaethau deddfwriaethol a roddir ar hyn o bryd gan ddeddfwriaeth yr UE i'r Comisiwn Ewropeaidd, ond i'w harfer yn hytrach gan awdurdodau cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig, fel y gellir eu harfer ar lefel genedlaethol ar ôl i'r DU adael yr UE.

Roedd rheoliadau'r UE yn ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid. Ym mhob achos, rhoddir y swyddogaeth ddeddfwriaethol i'r Comisiwn Ewropeaidd

fel y gall ddatblygu manylion technegol y gyfundrefn benodol, heb yr angen cyson i gyfeirio'n ôl at Gyngor yr UE a Senedd Ewrop.

Mae'r offeryn hwn yn darparu bod y swyddogaeth ddeddfwriaethol ym mhob achos yn arferadwy gan awdurdodau'r DU ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Fe'i lluniwyd i sicrhau bod y cyfundrefnau'n parhau i weithredu heb yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol bob tro y mae angen newid materion technegol.

Mae'r offeryn yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau deddfwriaethol mewn perthynas â Chymru. Gall Gweinidogion Cymru hefyd roi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru.

Gall swyddogaethau a arferir gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru fod yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n bosibl y gallai hynny fod yn ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu ym meysydd iechyd a lles anifeiliaid yn y dyfodol.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar 29 Gorffennaf 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn, ond maent yn nodi bod yr offeryn hefyd yn diwygio Rheoliad (EU) 2016/1012 Senedd Ewrop a'r Cygnor ar gyflyrau sootechnegol ac achyddol ar gyfer bridio, masnachu a mynd i mewn i'r Undeb o ran anifeiliaid bridio pur, moch bridio hybrid moch, a'u cynhyrchion cenhedlol. Ni chafodd y rheoliad hwn ei gynnwys gan yr UE yn y rhestr o gyfraith ddiwygiedig yn natganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru.

Bydd swyddogaethau deddfwriaethol o dan y rheoliad hwn yn arferadwy fel yr amlinellwyd uchod ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys Memorandwm Esboniadol y Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.